CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 5 Tachwedd 2018**

Presennol: Cadeirydd: Cyng Iwan Davies. Cyngr: Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Hywel Davies, S Kings, G Morgan

CS Clive Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs L Holder, Mrs E Davies a Mrs N Redmond

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Datgelodd y Cyng Mrs A Edwards fuddiant personol yn y cais am gymorth grant ar gyfer cinio Nadolig yr Henoed.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

A180803 Dylunio Treftadaeth, codi modurdy domestig
Ar ôl trafodaeth cytunodd y Cyngor i gefnogi'r cais.

A180988 Newid defnydd 2 adeilad allanol yn gernelau cŵn, Blaenbarthen, Llangoedmor
Ar ôl trafodaeth cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar y sail y byddai o bosibl yn cynyddu'r traffig ar gyffordd beryglus iawn ac o bosibl yn achosi niwsans i gymdogion gerllaw. Byddai'r Cyngor Cymuned yn gofyn am fod yn rhan o ymgynghoriad pe bae trwydded ar gyfer cenelau magu yn cael ei wneud ar gyfer y safle hwn.

*Cynlluniau Lle* sesiwn galw-heibio 29.11.18 o 7 i 8pm yn lolfa Neuadd y Cwrwgl. Y Clerc a'r Cyng S Kings i fynd. Lluniaeth ysgafn i fod ar gael.

Y Clerc i fynd i Barti Cinio Nadolig Pentref Llechryd ar 3.12.18.

Ffair yr Ysgol ar 6 Rhagfyr, 6pm. Y Cyng S Kings i fynd. Y Clerc i ddarparu defnyddiau yn y cyfarfod ar 3.12.18.

Tafarn – dyddiad i gael ei gytuno.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Cyfarfod *Ardal Chwarae Glannant* am 9am ar 8.11.18 – Y Clerc a'r CS Clive Davies i fynd. Croeso i bawb.

Nid oedd y Cyng Sirol hyd yma wedi cael y diweddaraf am y llain borfa yn Preseli *View*.

*Sgwrs am ddeddfwriaeth Cynllunio OPD gan Ms Jane Davidson,* 10 Ionawr 2018. Cymunedau eraill hefyd sy'n ymateb i geisiadau OPD i gael eu gwahodd. Roedd gwahoddiad wedi ei anfon at holl staff CSC drwy law'r CS Clive Davies.

*Diweddaraf am y Llifogydd / Cynllunio mewn Argyfwng*
Diolchwyd i'r holl Gynghorwyr a oedd wedi helpu yn ystod y llifogydd. Byddai'r CS Clive Davies a'r Cyng G Morgan yn mynd i gyfarfod gyda Chyngor Sir Ceredigion a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn Aberaeron ar 12 Tachwedd.

Nodwyd, pe byddai digwyddiadau yn y dyfodol, y byddai Neuadd y Cwrwgl yn cael ei darparu gyda chytundeb Pwyllgor y Neuadd. Er nad oedd rhai o'r trigolion wedi cael llifogydd, roeddent wedi eu hynysu gan y llifogydd. Byddid yn gofyn am wybodaeth pam nad oedd y dull rhwystro coed wedi ei adeiladu. Nodwyd na allai'r gronfa llifogydd gael ei gweinyddu gan y Cyngor Cymuned ac y dylai'r rhai sy'n ei gweinyddu wneud hynny'n ofalus. Roedd sbwriel wedi ei weld ar hyd glannau'r afon wrth i'r llif ostwng. Cytunwyd nad oedd yn waith i wirfoddolwyr oherwydd natur bosibl rhai o'r eitemau. Byddid yn gofyn i CSC / CNC am gyngor ar y mater hwn.

Diolchwyd i'r CS Clive Davies am roi ei amser, yna gadawodd y cyfarfod.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn cofnodion 1.10.18 yn gofnod cywir. Eiliwyd gan Cyng S Kings, a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**
*Taliadau*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.11.18 | HMRC | | 4.40 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25 postio 6.69 | 31.69 | |
| | SE Davies | Cymhwyso cyflog oherwydd codiad | 18.32 | |
| | Mr E Rees | Glanhau'r bloc toiledau/sbwriel/cysgodfannau bws | 361.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 16.00 | |
| | Mr J Morris | Porfa a Blychau Planhigion 2.7 i 30.10 | 1,026.00 | |
| | M Jones | Cyfieithu | 280.00 | |
| | SSE | Cyflenwad goleuadau Nadolig heb feter | 43.63 | |
| 30.11.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

Cynigiwyd: Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.

*Rhoddion/Grantiau. Ar hyn o bryd mae £600 ar ôl ar gyfer rhoddion*
Cinio Nadolig yr Henoed
Ar ôl datgelu buddiant personol, fel aelod o Bwyllgor y Parti yn y Parc, gofynnodd y Cyng Mrs A Edwards am arian ar gyfer y cinio, a darparodd wybodaeth am y costau. Cynigiodd y Cyng G Morgan y dylai'r Cyngor gyfrannu £350. Eiliwyd gan y Cyng K Symmons, cytunwyd, a'r Cyng Mrs A Edwards yn ymatal.

Ysgol Gerdd Ceredigion (dim cyfrifon wedi'u darparu)
Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid cyfrannu £100. Eiliwyd gan y Cyng S Kings a chytunwyd yn unfrydol.

*Cyllideb*
Aeth y Clerc drwy ffigurau drafft y gyllideb a phleidleisiodd y Cyngor ar lwfansau Cynghorwyr (darperir y canlyniadau yn ail ddrafft y gyllideb). Y gyllideb i gael ei chadarnhau yng nghyfarfod Rhagfyr – Ionawr fan pellaf.
Roedd gwybodaeth am ddyfynbrisiau ar gyfer y contract torri porfa am 2019/20 wedi ei hanfon o gwmpas a chytunwyd i roi'r contract i Mr John Morris.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r holl gontractwyr GAN: y Clerc

Nodwyd dyfynbrisiau ar gyfer arwyneb y lle chwarae at ddibenion y gyllideb.

Cynigiodd Mr Dai Hughes ddarparu bin am ddim, pe bae angen, a nodwyd hynny gyda diolch.

Er nad oedd gan y Cyngor ddim cwynion am waith Mr E Rees, cytunwyd y dylai'r contract glanhau gael ei hysbysebu.
GWEITHREDU: Paratoi hysbyseb GAN: Y Clerc

Roedd *batri i'r diffibrileiddiwr a phadiau a bin ar gyfer y lle chwarae wedi'u harchebu*.

*Llifogydd – Hyd 2018*
Cytunodd y Cyngr S Kings a G Morgan yn garedig i grynhoi cymaint â phosibl o wybodaeth am ddigwyddiadau'r llifogydd yn ddiweddar ac anfon honno at y CS Clive Davies.

*Hyfforddiant y Clerc*
Mae Cyngor Cymuned Llandudoch yn garedig wedi cytuno i ariannu ffioedd hyfforddiant y Clerc i gymryd y cwrs lefel 4 Llywodraethiant Cymunedau yn 2019/20 (roedd lle wedi'i gynnig dros dro yn amodol ar gael cais llawn). Roedd y Clerc yn gwneud y cwrs yn ei hamser ei hun.

*Cais y Clerc am godiad i golofn cyflog 18 (£9.808) o 1.11.18 gan fod neges e-bost ei phenodiad wedi'i dyddio ar 23.10.15*
Cynigiwyd gan y Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng G Morgan, cytunwyd yn unfrydol.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Adroddiad ar gerdded y llwybrau ar 4 Tachwedd 2018*
Dywedwyd bod y daith wedi'i dileu oherwydd y tywydd.

*Unrhyw wybodaeth ddiweddar am lwybrau troed wrth* Glannant neu am drwsio'r arwydd anghywir?
Nid oedd gwaith amlwg wedi'i wneud ar y naill safle na'r llall.

*Cysgodfannau bws*
Roedd Mr E Rees wedi glanhau'r cysgodfannau ar ôl y llifogydd yn ddiweddar.

*Cyflymdra yng Nghroes-y-Llan*
Er gwaethaf yn ymateb gan CSC yn gynharach eleni nad oedd y groesffordd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfyngu cyflymdra, cytunwyd y byddid yn codi'r mater eto.

**11. Mwynderau**
*Hysbysfwrdd yn y Parc Ceir*
Roedd yr hysbysfwrdd yn y parc ceir wedi ei symud oddi yno ar ôl i archwiliad ddatgelu ei fod yn anniogel. Byddai arwyneb y parc ceir yn cael ei drwsio. Diolchwyd i bawb dan sylw am roi eu hamser. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr i ddiolch i Mr Krueger am ei gymorth.
GWEITHREDU: Llythyr diolch GAN: Clerc

*Diffibrileiddiwr – gweler Cyllid a Gweinyddu*
Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer y cwpwrdd newydd yn y blwch. Cytunwyd i ddiffodd larwm y cwpwrdd.

*Arwynebau chwarae newydd*
Dywedodd y contractiwr fod y problemau gydag ymylon yr arwynebau a oedd newydd eu gosod wedi digwydd oherwydd yr haf poeth iawn. Roedd yr ymylon wedi symud.

*Llwybr tarmac*
Roedd gwaith trwsio yn dal i heb ei wneud pan fu'r Clerc yno ddiwethaf.

**12. Prosiectau'n parhau**
Dim

**13. Digwyddiadau**
*Gwasanaeth y Cofio – i ddechrau 10.30am.*
Cytunodd y Cyngr G Morgan ac S Kings i fynd â chadeiriau i'r hen eglwys. Byddai'r Clerc yn argraffu Trefn y Gwasanaeth.

*Glanhau yn yr Eglwys / mainc bren*
Byddai'r Cyngr S Kings a G Morgan yn mynd i'r fynwent a chyda chymorth Mr J Holder yn torri'r fainc bren a oedd wedi'i golchi i fyny at y gât gan y llifogydd. Cytunodd y Cyng K Symmons yn garedig i grynhoi'r darnau a'u gwaredu. Byddai sbwriel yn cael ei glirio o'r llwybr.
Diolchwyd i bawb am roi eu hamser.

*Cynnau'r Goleuadau Nadolig – 28 Tachwedd, 6pm*

Nodwyd y gallai'r llifogydd yn ddiweddar fod wedi effeithio ar y gwaith trydan yn yr hen eglwys. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd siarad â Mr Mathew Penny i gael ei gyngor a oedd y gwaith trydan yn ddiogel ac os oedd angen eu trwsio, faint fyddai'r gost. Er mwyn symud ymlaen gydag unrhyw waith, byddai penderfynu o ran cytuno ar ddyfynbris yn cael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd, y Cyngr Mrs A Edwards a'r Clerc

GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Penny GAN: Y Cadeirydd

Cynigiodd y Cyng G Morgan yn garedig i gynnal y digwyddiad 'mins peis' ar ôl cynnau'r goleudau yn ei gartref.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**15. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost**
*Gohebiaeth a nodwyd:*
Cronfa Gymunedol Aviva
Hysbysiadau ffôn 111 GIG
Hysbysiadau Diwrnod Hawliau Gofalwyr

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Roedd y Cadeirydd wedi cael gwybod nad oedd baner y Ddraig Goch ar bostyn y faner mewn cyflwr da. Byddid yn ymchwilio i hynny.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3.12.18 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim mater arall, daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm*